Llywodraeth Cymru

# Llwybrau at Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Tachwedd 2025)

14/01/2026

Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ganfyddiadau ei ymchwiliad i lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r adroddiad yn cynnwys 16 o argymhellion.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 3**

**2. Ymatebion i'r 16 argymhelliad ..... 5**

Argymhelliad 1 ..... 5
Argymhelliad 2 ..... 5
Argymhelliad 3 ..... 6
Argymhelliad 4 ..... 7
Argymhelliad 5 ..... 7
Argymhelliad 6 ..... 8
Argymhelliad 7 ..... 9
Argymhelliad 8 ..... 10
Argymhelliad 9 ..... 11
Argymhelliad 10 ..... 12
Argymhelliad 11 ..... 12
Argymhelliad 12 ..... 13
Argymhelliad 13 ..... 14
Argymhelliad 14 ..... 16
Argymhelliad 15 ..... 16
Argymhelliad 16 ..... 16

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hadroddiad ar lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16, sy'n gwneud argymhellion ar draws ystod o bortffolios Gweinidogol.

Mae gwella cyfranogiad mewn addysg ôl-16 yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer Cymru decach, fwy llewyrchus - gan sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfle i ddatblygu, ennill sgiliau lefel uwch, a chyfrannu at economi gref a chynaliadwy.

Drwy Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), sefydlodd Llywodraeth Cymru Medr i greu un system ôl-16 gydlynol. Mae Medr yn alinio prosesau cynllunio, cyllid ac ansawdd ar draws ysgolion, colegau, prifysgolion a phrentisiaethau - gan symleiddio llwybrau dysgu ac ehangu'r cyfranogiad er mwyn diwallu anghenion sgiliau Cymru i'r dyfodol. Mae rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn benodol ar gyfer Medr a fydd yn darparu eu hymateb eu hunain i'r Pwyllgor.

Dylai pobl ifanc ledled Cymru gael mynediad at ystod eang o lwybrau addysg a hyfforddiant sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u huchelgeisiau unigol. Er bod yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y chweched dosbarth yn canolbwyntio ar lwybrau academaidd yn unig, a cholegau ar gyrsiau galwedigaethol, mewn gwirionedd gall y ddau gyfrwng gynnig cyfleoedd amrywiol - academaidd, galwedigaethol a chymysg - gan rymuso dysgwyr i gyflawni eu hamcanion. Mae cydnabod yr ehangder hwn a sicrhau cydraddoldeb parch rhwng llwybrau yn hanfodol er mwyn creu system lle mae pob person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi ac yn hyderus yn ei ddewisiadau.

Ym mis Tachwedd, nododd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch mewn Datganiad Llafar bum her frys sy'n wynebu sector addysg drydyddol Cymru, a'r gyntaf yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad. Byddwn yn cyhoeddi papur tystiolaeth cyn bo hir yn rhoi rhagor o fanylion ar yr heriau hyn, ynghyd â galwad am gyflwyniadau gan randdeiliaid.

Ochr yn ochr â hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Prosbectws Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru ym mis Mawrth. Bydd yn rhan allweddol o'r adolygiad ehangach o addysg drydyddol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dwyn ynghyd sawl llinyn dadansoddi, gan gynnwys ymchwil gymdeithasol, cysylltu data, ac adolygiadau systematig o dystiolaeth, er mwyn creu sylfaen dystiolaeth gronnol ar y ffactorau a'r tueddiadau allweddol sy'n llywio'r cyfranogiad, y cynnydd a'r diffyg cynnydd yng Nghymru.

Y sylfaen dystiolaeth gronnol hon, ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, fydd sail strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i sicrhau newid ystyrlon a chynaliadwy ar draws y system addysg drydyddol.

A ninnau'n agosáu at ddiwedd tymor y Senedd hon, mater i'r Llywodraeth a fydd yn ei lle yng Nghymru ar ôl etholiadau mis Mai fydd gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn benderfynol o adeiladu ar y momentwm a enillwyd, symud camau allweddol yn eu blaen lle bynnag y bo'n bosibl, a chario'r momentwm hwn i mewn i dymor nesaf y Senedd.

# 2. Ymatebion i’r 16 argymhelliad

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol gadarn, gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n cynnwys llwybrau i gyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dylai'r strategaeth gwmpasu llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan greu gweledigaeth strategol ar gyfer sector ôl-16 cydlynol a chydweithredol sy'n annog dysgwyr i gael addysg a meithrin sgiliau drwy ba bynnag lwybr addysgol sy'n iawn iddyn nhw.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Ar 25 Tachwedd, gwnaeth y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ddatganiad llafar yn cydnabod yr angen i ddiwygio yn nhymor nesaf y Senedd.  Mae'r datganiad yn amlinellu'r heriau hirdymor sy'n wynebu'r sector trydyddol ac yn nodi cynlluniau i alw am gyflwyniadau ar gyfranogiad mewn addysg drydyddol a chynaliadwyedd.  Bwriedir lansio'r alwad hon am gyflwyniadau ym mis Ionawr, a bydd yn darparu tystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau polisi i'r dyfodol.

Yn ogystal, bydd Prosbectws Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi cyn y cyfnod cyn-etholiadol. Bydd yn adlewyrchu casgliadau Grŵp Cyfeirio o randdeiliaid allweddol a grewyd i ystyried y ffordd orau o gryfhau addysg a hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru. Bydd y Prosbectws hefyd yn cael ei lywio gan 43 o argymhellion sy'n gorgyffwrdd o ddau adroddiad allweddol: yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol (Medi 2023) a Pontio i Fyd Gwaith (Mehefin 2023). Bydd y cyhoeddiad hwn yn ategu'r alwad am gyflwyniadau, gan gynrychioli safbwyntiau'r sector a ffurfio rhan allweddol o'r adolygiad ehangach o addysg drydyddol.

Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid llunio strategaeth drydyddol eang neu strategaeth alwedigaethol benodol yn cael ei lywio gan ganlyniadau'r alwad am gyflwyniadau a'r Prosbectws.

**Goblygiadau Ariannol:**

I'w penderfynu yn seiliedig ar gynnwys unrhyw ddogfen strategaeth.

## Argymhelliad 2

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei hasesiad ynghylch a fyddai'n fuddiol ehangu'r arferion da a welir gydag Addewid Caerdydd a rhaglen beilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn i rannau eraill o Gymru, ac unrhyw rwystrau a fyddai'n atal hynny ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Ni chynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o brosiect Llwybrau Gyrfa Ynys Môn Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol y Gogledd; mae'r Bartneriaeth wedi nodi bod y prosiect yn arddangos sylfaen addawol ar gyfer rhaglenni i'r dyfodol, sydd â'r nod o alinio llwybrau addysg a chyflogaeth.

Mae Addewid Caerdydd yn fenter sydd wedi'i datblygu a'i harwain gan Gyngor Caerdydd a phartneriaid allweddol. Cyhoeddodd Cyngor Caerdydd Adroddiad Effaith cynhwysfawr mewn perthynas ag Addewid Caerdydd sy'n ymdrin â'r hyn a gyflawnwyd dros ddwy flynedd.
Yn 2022 tynnodd Estyn sylw at Addewid Caerdydd fel cyfrwng effeithiol i leihau cyfraddau NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) a gwella llwybrau cynnydd ôl-16.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod Addewid Caerdydd a phrosiect Llwybrau Gyrfa Ynys Môn yn enghreifftiau o arfer da o ran cydweithredu effeithiol y gellid eu rhoi ar waith yn ehangach ledled Cymru. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr addysg, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Gyrfa Cymru a chyflogwyr i hyrwyddo arferion da ac i ymgorffori egwyddor gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau i ddarparu gwell cymorth, gwybodaeth ac arweiniad i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr. Bydd hyn hefyd yn ategu'r strategaeth a ddilynwyd o dan ein Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cynllun Prentisiaethau Iau i sicrhau ei fod ar gael i ddysgwyr ledled Cymru sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg. Wrth wneud hynny, dylai fynd i'r afael â phryderon Estyn ynghylch Prentisiaethau Iau, gan gynnwys y pryderon ynghylch anghysondebau yn y meini prawf atgyfeirio, yn y wybodaeth a ddarperir i rieni ac mewn prosesau sicrhau ansawdd; a sicrhau bod mesurau diogelu cadarn wedi'u hymgorffori yn y rhaglen i amddiffyn dysgwyr 14-16 oed wrth iddynt gael addysg mewn lleoliad ôl-16.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda Medr a'n partneriaid mewn sefydliadau addysg bellach ledled Cymru i sicrhau bod Prentisiaethau Iau ar gael i fwy o ddysgwyr ledled Cymru. Mae ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cyllideb o £1m ar gyfer y rhaglen, sy'n fwy na dwbl cyllideb y rhaglen yn 2024/25.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried yr argymhellion a wnaed yn adolygiad thematig Estyn 2024 a oedd yn cynnwys mynd i'r afael ag anghysondebau mewn meini prawf atgyfeirio, y prosesau sicrhau ansawdd a'r wybodaeth a ddarperir i rieni, ynghyd â mesurau diogelu. Byddwn yn gweithio gyda Medr i ddatblygu opsiynau i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gydnabod ar yr un pryd y gwahaniaethau bach yng nghyd-destun y Prentisiaethau Iau a gynigir ledled y wlad o ran sut y cânt eu gweithredu, yn ogystal â'r ystod o ddarpariaeth ran-amser sydd ar gael mewn colegau ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed.

Bydd Medr yn parhau i weithio gyda phartneriaid presennol a newydd mewn sefydliadau addysg bellach i chwilio am gyfleoedd i ehangu'r rhaglen.

**Goblygiadau Ariannol:**

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys ymrwymiad o £1m i ddarpariaeth Prentisiaethau Iau yn 2026/27. Mae hyn yn dyblu'r gyllideb ers 2024/25. Er mwyn ehangu ledled y wlad, byddai angen cyllid pellach.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dull o ymdrin ag addysg alwedigaethol cyn-16 ledled Cymru. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae darpariaeth fel Prentisiaethau Iau, addysg cyn-16 arall mewn coleg, a chymwysterau TAAU yn ffurfio cynnig galwedigaethol cydlynol a chyfannol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol orfodol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae ein Hawl i Ddysgu 14 i 16 a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi ein strategaeth mewn perthynas ag addysg gyffredinol a galwedigaethol cyn 16 oed. Mae'n nodi ein disgwyliad y dylid rhoi cyfle i ddysgwyr ystyried eu hopsiynau a'u cynlluniau ar gyfer gyrfa ôl-16, a rhoi amser pwrpasol iddynt asesu eu cryfderau eu hunain a'r meysydd y mae angen eu gwella.

Er mwyn ehangu a symleiddio dewis dysgwyr ymhellach, rydym yn gwella'r elfen o'r Hawl i Ddysgu sy'n ymwneud â 'chymwysterau i annog ehangder' drwy gyflwyno cymwysterau TAAU newydd o fis Medi 2027 ymlaen. Bydd y rhain yn symleiddio'r ystod eang o gymwysterau galwedigaethol cyn-16 sydd ar gael ar hyn o bryd, gan greu set o bymtheg o bynciau cyson sydd â'r un gwerth â TGAU. Byddant yn rhoi blas ar addysg alwedigaethol i ddysgwyr mewn ysgolion prif-ffrwd i lywio eu camau nesaf unwaith y byddant yn gadael addysg orfodol.

Rydym yn annog ysgolion a cholegau i gydweithio i ddarparu addysg alwedigaethol cyn-16 i ddysgwyr, ac rydym yn falch o weld yr ystod o gyfleoedd rhan-amser sydd eisoes yn cael eu cynnig i ddysgwyr mewn colegau. Maent yn darparu mwy o ehangder dysg i ddysgwyr a chyfleoedd i ystyried eu llwybrau ôl-16. Bydd fy swyddogion yn ystyried sut y gallwn gryfhau'r canllawiau i feithrin mwy o gydweithrediad rhwng darparwyr, i gynyddu'r dewis sydd ar gael i ddysgwyr, ac i wneud dysgwyr yn fwy ymwybodol o'r ystod o lwybrau sydd ar gael iddynt pan fyddant yn gadael addysg orfodol yn 16 oed.

Er mai ffocws galwedigaethol sydd iddi, mae ein rhaglen Prentisiaethau Iau yn llwybr llawn-amser pwrpasol a anelwyd at ddysgwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET. Ni fyddai'r rhaglen yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, ond mae'n darparu llwybr amgen i'r lleiafrif o ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth addysg. Mae yna hefyd ystod o ddarpariaeth ran-amser ar gael mewn llawer o golegau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, sy'n eu galluogi i astudio opsiynau mwy galwedigaethol mewn coleg am sawl awr bob wythnos.

**Goblygiadau Ariannol:**

Fel y nodir uchod, mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys ymrwymiad o £1m i ddarpariaeth Prentisiaethau Iau yn 2026/27.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Medr, gynnal adolygiad o gyllid a deddfwriaeth ôl-16 i archwilio:

- a yw'r system gyllido bresennol yn cymell cystadleuaeth rhwng darparwyr sy'n effeithio ar natur ddiduedd y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr, ac i ba raddau y mae hynny'n digwydd;
- sut y mae ysgolion a cholegau unigol wedi goresgyn heriau cyllido er mwyn cydweithio'n effeithiol;
- a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r system gyllido ôl-16 a'r ddeddfwriaeth i ysgogi cydweithio rhwng sefydliadau ôl-16 (e.e. drwy roi'r gorau i ddefnyddio model cyllido yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion, drwy ddarparu cyllid grant i wobrwyo cydweithio, neu fel arall).

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn cydnabod bod angen adolygu ac ystyried y modelau cyllido cyfredol er mwyn sicrhau darpariaeth well i ddysgwyr, rhoi sefydlogrwydd i ddarparwyr, a sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Dyna pam rydym wedi rhestru cynaliadwyedd ariannol ar y naill law, a chystadleuaeth a chydweithredu rhwng darparwyr ar y llall, fel dwy o'n pum prif her i'r sector yn y dyfodol yn ein galwad am gyflwyniadau, sydd i'w chyhoeddi ym mis Ionawr, a byddwn yn ceisio barn rhanddeiliaid ar yr heriau ariannol ehangach sy'n wynebu'r sector trydyddol i lywio polisi i'r dyfodol.

Mae cynllun gweithredol Medr yn ymrwymo i "adolygiad a dadansoddiad trylwyr o'r modelau cyllido cyfredol ar gyfer addysg drydyddol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer newid". Bydd angen i waith o'r fath fod yn gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:**

I'w penderfynu yn seiliedig ar gynnwys unrhyw ddogfen strategaeth.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r Hawl i Ddysgu 14-16 oed presennol i gynnwys y pecyn ehangach o gyngor, cyfarwyddyd a chyfleoedd y mae gan ddysgwyr hawl i'w gael yng Nghyfnod Allweddol 4. Dylai'r Hawl i Ddysgu 14-16 estynedig hon gynnwys elfennau sylfaenol trefniadau pontio effeithiol o ansawdd uchel i addysg ôl-16, megis yr hawl i ddysgwyr gael cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel gan eu hysgolion a Gyrfa Cymru; mynediad at gynrychiolwyr colegau, darparwyr seiliedig ar waith a phrifysgolion; a phrofiad gwaith. Dylai'r hawliau penodol adlewyrchu cynnig polisi ehangach Llywodraeth Cymru, cael eu hyrwyddo'n uniongyrchol i ddysgwyr a'u teuluoedd, a'u defnyddio gan Estyn ac eraill i ddwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu i ddysgwyr.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae ein Hawl i Ddysgu 14 i 16 a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi'r cyngor, yr arweiniad a'r cyfleoedd y mae gan ddysgwyr hawl iddynt yng Nghyfnod Allweddol 4.
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn ystyried cryfhau'r Hawl hon i gynnwys gofynion penodol sy'n golygu bod gan gynrychiolwyr colegau, darparwyr seiliedig ar waith a phrifysgolion ffordd o gysylltu â dysgwyr i'w hysbysu am y cyfleoedd sydd ar gael mewn gwaith, addysg bellach neu addysg uwch ar ôl 16 oed.

Yn dilyn argymhelliad yn adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Llwybrau Prentisiaeth - ym mis Gorffennaf, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i archwilio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil gyflwyno Cymal Baker yn Lloegr. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ganiatáu i golegau a darparwyr hyfforddiant allu cysylltu â disgyblion ym Mlynyddoedd 8 i 13 i hyrwyddo llwybrau technegol a galwedigaethol ochr yn ochr ag opsiynau academaidd.

Mae ehangu'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 yn gydnaws â chynnig Gyrfa Cymru i roi cyngor a phrofiad gyrfa i bob dysgwr, sy'n ddiduedd, o ansawdd uchel ac sy'n eu paratoi ar gyfer camau pontio ôl-16. Mae Gyrfa Cymru eisoes yn cynnig arweiniad o ran gyrfa i bob person ifanc cyn iddynt adael Blwyddyn 11, a chymorth ychwanegol pwrpasol i'r rhai sydd mewn perygl o gael y profiad pontio yn un anodd. Fodd bynnag, oherwydd heriau mewn nifer fach o ysgolion sy'n ymwneud â'r gallu i gysylltu â dysgwyr, efallai y gellid cryfhau'r cynnig hwn drwy'r Hawl i Ddysgu.

Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn thema drawsbynciol yn ein cwricwlwm, a fydd wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn Medi 2026. Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn rhan annatod o holl addysg dysgwr, o 3 i 16 oed. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau gwerthfawr ac yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn cyd-destunau sy'n eu hysbrydoli, ac sy'n seiliedig ar y byd go iawn.

**Goblygiadau Ariannol:**

Er mwyn cynnig fersiwn estynedig o'r hawl, bydd angen capasiti a chyllid ychwanegol er mwyn i Gyrfa Cymru gydlynu profiad gwaith ar lefel genedlaethol.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i gynnal adolygiad thematig o wasanaeth cyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio'n benodol ar gynnig 'safonol' Gyrfa Cymru, a dylai ystyried a yw'n diwallu anghenion yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd, a pha newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i wella'r ddarpariaeth.

**Ymateb:** Gwrthod

Cwblhawyd adolygiad gan Estyn o'r arweiniad a roddir mewn ysgolion uwchradd ac arbennig ar yrfaoedd yn 2022. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc gymwys wedi gwneud cynnydd da o ran cynllunio eu dyfodol, yn dilyn sesiynau arweiniad ar yrfaoedd.
Ers hynny, mae Gyrfa Cymru wedi cyflwyno cynnig arweiniad gyrfa newydd. Ers Medi 2024, cynigir cyfweliad arweiniad gyrfa i bob dysgwr cyn gadael addysg brif-ffrwd. Mae

hyn yn ychwanegol at y cymorth penodol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae'r ymateb wedi bod yn gryf, a manteisiodd dros 86% o garfan Blwyddyn 11 2024/25 ar y cynnig. Dim ond yn fyr y cyfeirir at y gwelliant sylweddol hwn i'r cynnig yn adroddiad y Pwyllgor.

Wrth edrych ymlaen, mae Gyrfa Cymru wrthi'n gwerthuso eu cynnig presennol er mwyn llywio eu strategaeth newydd, sydd i'w gweithredu yn 2027. Fel sail i'r gwaith hwn, mae Gyrfa Cymru yn holi barn dysgwyr, rhieni, ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu'r ymchwil bresennol i gefnogi Gyrfa Cymru gyda'u cynlluniau i'r dyfodol.

Ar ôl cwblhau gwerthusiad Gyrfa Cymru, os ystyrir bod angen rhagor o dystiolaeth, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer ymchwil ychwanegol ar y cam hwnnw. Byddai comisiynu adolygiad gan Estyn nawr yn dyblygu gwaith diweddar a gweithgarwch gwerthuso parhaus.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.

## Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu darn penodol o ymchwil i ddeall yn well pam nad yw rhai cyflogwyr yn gallu cynnig lleoliadau profiad gwaith, neu pam eu bod yn amharod i wneud hynny, a pha gamau y gall Llywodraeth Cymru neu eraill eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud i ddeall safbwyntiau cyflogwyr ar brofiad gwaith. Ym mis Medi 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaeth bord gron gyda chyflogwyr, rhanddeiliaid allweddol, a Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi ar y pryd. Roedd y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r drafodaeth hon yn cynnwys:

- Pwysigrwydd rôl ddynodedig o fewn ysgolion i gydlynu profiad gwaith.
- Yr angen am un pwynt cyswllt syml i fusnesau, gan nad oes gan gyflogwyr y capasiti i ymateb i fwy nag un cyswllt o wahanol sefydliadau.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yng nghamau olaf y gwaith o gyhoeddi canllawiau cynhwysfawr ar leoliadau profiad gwaith i gyflogwyr, pobl ifanc, ysgolion a rhieni. Yn ogystal, fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc, mae Busnes Cymru wedi cynhyrchu canllaw arfer da i gyflogwyr, sy'n amlinellu camau i wella'r broses o ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd profiad gwaith.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael drwy Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y DU, ffynhonnell allweddol o ddata ar yr heriau i gyflogwyr o ran sgiliau, a datblygiad gweithlu. Holodd Arolwg 2024 22,712 o gyflogwyr y DU, gan gynnwys 5,605 yng Nghymru. Bydd canfyddiadau sy'n benodol i Gymru yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2026, a byddant yn cynnwys:

- Cyfran y cyflogwyr sy'n cynnig lleoliadau gwaith neu interniaethau, a manylion am y math o leoliadau ydynt, eu hyd, tâl, a'r llwybr i rolau cyflogedig.

- Rhesymau pam y mae cyflogwyr yn cynnig lleoliadau gwaith ac nad ydynt yn cynnig lleoliadau gwaith.
- Y gwerth y mae cyflogwyr yn ei roi ar brofiad gwaith wrth recriwtio.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu dadansoddiad pwrpasol o brofiadau cyflogwyr Cymru o leoliadau gwaith, gan ei gwneud yn bosibl dadansoddi yn ôl rhanbarth, maint y cyflogwr, sector, ac elfennau eraill, yn ôl maint y sampl.

Gellid cynnwys cwestiynau ychwanegol hefyd yn yr arolwg Omnibws Busnes i archwilio cymhellion a rhwystrau ymhellach, er y byddai hyn yn costio'n ychwanegol.

O ystyried y gwaith parhaus hwn a'r data sydd i ddod i law, byddai comisiynu prosiect ymchwil ar wahân ar y cam hwn yn dyblygu'r ymdrechion presennol.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn benodol yr effaith ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ei chylch gorchwyl ar gyfer y gwerthusiad annibynnol arfaethedig o'i chynllun peilot tocynnau bws sengl am uchafswm o £1/tocynnau teithio dyddiol am uchafswm o £3 i bobl ifanc.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn croesawu argymhellion y Pwyllgor ac yn cytuno bod deall effaith y cynllun peilot tocynnau bws sengl am uchafswm o £1/tocynnau teithio dyddiol am uchafswm o £3 ar allu pobl ifanc i fanteisio ar addysg a hyfforddiant ar fynediad ôl-16 yn hanfodol. Felly, bydd y gwerthusiad annibynnol sydd ar ddod yn ystyried y mater hwn yn benodol o fewn ei gylch gorchwyl. Rydym yn cydnabod bod llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar brofiadau'r bobl ifanc eu hunain, yn ogystal â'r gweithredwyr sy'n darparu'r gwasanaethau, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod eu safbwyntiau nhw yn llywio'r canfyddiadau.

Bydd y gwerthusiad yn cynnwys ymgysylltu cynhwysfawr â phobl ifanc, gweithredwyr bysiau, a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru. Defnyddir dull cymysg i gasglu tystiolaeth gadarn ar sut mae'r cynllun yn gweithio yn ymarferol. Bydd adroddiad interim ar gael tua chwe mis ar ôl i'r gwerthusiad ddechrau, a disgwylir canfyddiadau drafft ar ôl tua naw mis. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod yr effaith ar fynediad at gyfleoedd ôl-16 yn cael ei deall yn llawn a'i defnyddio i lywio datblygiad polisi i'r dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â derbyn yr argymhelliad hwn, gan fod y fframwaith monitro a gwerthuso eisoes wedi'i gynllunio i gynnwys y meysydd a amlygwyd gan y Pwyllgor.

## Argymhelliad 10

Dylai Medr wella ansawdd ac amseroldeb y data cyhoeddedig am addysg a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 a 18 oed, mewn ymateb i'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, dylai Medr roi sylw arbennig i:

- ddata sy'n dilyn llwybrau dysgwyr ar bob cam ar ôl iddynt adael blwyddyn 11, i helpu i ddeall dewisiadau dysgwyr a ble, pam a phryd y gallai dysgwyr fod yn gadael neu'n rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant; a
- data am ddysgwyr mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith, yn enwedig dysgwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau lefelau 1 a 2, gan gynnwys cyrchfannau ar gyfer y rhai ar gyrsiau blwyddyn.

**Ymateb:**

Bydd Medr yn darparu ei ymateb ei hun i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 11

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad o:

- pam mae'n credu bod cymaint o anghysondeb rhwng cyfran y dysgwyr sydd eisiau ymgymryd â phrentisiaeth a chyfran y dysgwyr sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd; a
- y graddau y mae'r rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr (megis y cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach a chanolig) wedi cyfrannu at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y galw am brentisiaethau ymhlith pobl ifanc a nifer gwirioneddol y prentisiaethau sydd ar gael.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cydraddoldeb parch rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd yn parhau i fod yn her sylweddol. Er gwaethaf diddordeb cryf ymhlith dysgwyr, mae'r cyngor a'r arweiniad weithiau yn ffafrio llwybrau academaidd, ac mae nifer y lleoedd i brentisiaid hefyd yn cael ei effeithio gan gyfyngiadau cyllid, y galw ymhlith cyflogwyr, a'r cyfleoedd sydd ar gael mewn sectorau allweddol. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr addysg, Gyrfa Cymru, a Medr i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn arweiniad cytbwys o ansawdd uchel ar bob opsiwn, gan gynnwys prentisiaethau. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith Llywodraeth Cymru ar Brosbectws Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru, sy'n ystyried ffyrdd o gryfhau llwybrau galwedigaethol a hyrwyddo eu gwerth ochr yn ochr â llwybrau academaidd.

Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r holl gyllid ar gyfer costau hyfforddiant prentisiaethau, mae pwysau economaidd ehangach a pholisïau Llywodraeth y DU ar Yswiriant Gwladol a'r isafswm cyflog wedi cyfyngu ar nifer y cyfleoedd sydd ar gael. Mae busnesau bach a chanolig, yn arbennig, yn wynebu rhwystrau fel diffyg ymwybyddiaeth, baich gweinyddol, a chapasiti cyfyngedig. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, mae Llywodraeth Cymru a Medr yn adolygu canllawiau cyflogwyr, yn cefnogi'r rhaglen rhannu

prentisiaethau, ac yn darparu gwybodaeth glir drwy Wasanaeth Cynghori Busnes Cymru. Mae mentrau fel Wythnos Prentisiaethau hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth ac annog cyflogwyr i weithredu, gan sicrhau bod cyfleoedd prentisiaeth yn parhau i ymateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Mae gan Medr bellach gyfrifoldeb gweithredol am gyllido prentisiaethau, cynllunio rhaglenni, ac adolygu fframweithiau. Wrth ddatblygu'r rhaglen brentisiaethau newydd i'w chyflwyno o fis Awst 2027 ymlaen, mae Medr:

- Yn archwilio pa gymorth ychwanegol sydd ei angen ar gyflogwyr i gynnig prentisiaethau, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth ar gael, ei bod yn hawdd cael gafael arni, a'i bod yn briodol.
- Yn parhau i gyllido ac adolygu'r model rhannu prentisiaethau, sy'n galluogi busnesau bach a chanolig yn benodol i fanteisio ar y ddarpariaeth drwy ganiatáu i ddysgwyr fodloni'r gofynion drwy gyswllt â sawl cyflogwr, ac yn ystyried sut y gellir ymgorffori'r dull llwyddiannus hwn orau o fewn y rhaglen newydd.
- Yn cynnal rhaglen barhaus o adolygiadau fframweithiau i sicrhau bod llwybrau prentisiaeth yn briodol i alluogi dysgwyr i ymuno â sectorau cyflogaeth a datblygu o'u mewn.

Mae gwaith Medr yn cefnogi nodau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol drwy sicrhau bod prentisiaethau yn ymateb i anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach, a thrwy helpu i gael gwared ar unrhyw beth sy'n rhwystro pobl ifanc a busnesau rhag manteisio ar y ddarpariaeth.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.

## Argymhelliad 12

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu:

- pam mae'n credu bod dynion ifanc yn gyson fwy tebygol o ddod yn NEET o gymharu â menywod ifanc;
- sut y mae ei gwaith i wella cyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 wedi ystyried y gwahanol heriau sy'n wynebu menywod a dynion ifanc;
- a yw'n credu bod angen gwneud unrhyw waith pellach i ddeall yn well pam mae rhai pobl ifanc yn dod yn NEET, yn enwedig mewn perthynas ag amrywiadau mewn cyfraddau rhwng menywod a dynion ifanc yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae ein Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn nodi ac yn cefnogi pobl ifanc 11–18 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio neu o fod yn ddigartref. Mae cryfhau'r Fframwaith hwn a gweithredu'r Warant i Bobl Ifanc yn ymrwymiadau allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, i helpu pobl ifanc i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu hunangyflogaeth ac i atal digartrefedd.

O ran y lefelau ymgysylltu ag addysg drydyddol, mae cyfran uwch o fenywod yn symud ymlaen o flwyddyn 11 i addysg drydyddol na dynion. Fodd bynnag, o ystyried cyflogaeth ochr yn ochr ag addysg a hyfforddiant, nid yw'r data cyfredol yn cefnogi'r safbwynt bod dynion ifanc yn gyson fwy tebygol o fod yn NEET.  Yng Nghymru, roedd 12.4% o ddynion 16–24 oed yn NEET yn 2024, o gymharu â 15.2% o fenywod. Ers 2023, gostyngodd y cyfraddau NEET ymhlith dynion 2.7 pwynt canran, a chododd y cyfraddau ymhlith menywod 4.2 pwynt. Er bod y cyfraddau NEET yn uwch ymhlith menywod ar hyn o bryd, mae'r heriau cyson sy'n wynebu dynion ifanc yn parhau.

Mae'r ffactorau risg yn gwahaniaethu yn ôl rhyw, oedran ac anghenion ychwanegol. Canfu ymchwil yn Lloegr fod dynion hyd at 25 oed yn fwy tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol, lefelau cyrhaeddiad isel, a phroblemau ymddygiad; mae menywod ifanc yn fwy tebygol o fod wedi cael plentyn cyn 25 oed. O gymharu â merched, mae asesiadau o fechgyn yng Nghymru yn dynodi anghenion dysgu ychwanegol yn amlach, ac mae anghysondeb rhwng amcanion gyrfa a chynlluniau addysg yn fwy tebygol.

Er mwyn gwella cyfranogiad mewn addysg ôl-16, mae Llywodraeth Cymru yn darparu ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau sydd wedi'u targedu. Ers mis Medi 2024, mae Gyrfa Cymru yn cynnig cyfweliad arweiniad gyrfa i bob dysgwr cyn gadael addysg statudol, ynghyd â chymorth pellach i'r rhai sy'n wynebu risg. Mae'r Rhaglen Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad yn targedu bechgyn sy'n tanberfformio, ac mae Cwricwlwm Cymru yn hyrwyddo llwybrau hyblyg.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddwyd 'Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant'. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'r elfennau gwaelodol hynny sy'n arwain at statws NEET, yn enwedig mewn perthynas â gwahaniaethau rhwng y rhywiau a ffactorau croestoriadol. Rydym yn parhau i adolygu'r dystiolaeth, gan gynnwys Arolwg Carfan y Mileniwm a'r gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc, rydym yn addasu ymyriadau ac rydym yn lleihau'r cyfraddau NEET drwy weithredu ar sail tystiolaeth.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.

## Argymhelliad 13

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliadau o ran sut y dylai darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau ôl-18. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir pwy sy'n gyfrifol am y cyngor hwnnw a rôl Estyn o ran dwyn sefydliadau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu.

**Ymateb:** Derbyn

Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn thema drawsbynciol o fewn Cwricwlwm Cymru, a dylai ysgolion eu hymgorffori yn eu darpariaeth ddysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth ysgolion i ddysgwyr wrth iddynt gynllunio ar gyfer eu camau nesaf ar ôl 16 oed.

Dylai dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach barhau i gael addysg gyrfaoedd, gan gynnwys rhoi mynediad i ddysgwyr at ddeunyddiau canllaw ac ystod eang o ddeunyddiau cyfredol. Er mwyn cefnogi hyn, mae **Gwobr Datblygu Gyrfaoedd** Ôl-16 Gyrfa Cymru yn cydnabod sefydliadau addysgol sy'n dangos ymrwymiad cryf i ddarparu addysg ac arweiniad gyrfaoedd o ansawdd uchel i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r wobr yn adeiladu ar egwyddorion gwelliant parhaus, ac yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwella arweiniad gyrfaoedd, a sicrhau bod dysgwyr yn derbyn cyngor diduedd a chefnogaeth ymarferol i wneud penderfyniadau gwybodus. Drwy ennill y wobr hon, gall darparwyr arddangos eu hymroddiad i baratoi pobl ifanc i bontio'n llwyddiannus i gyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant.

Dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach fanteisio yn fwy cyffredinol hefyd ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gyrfa Cymru, a all helpu dysgwyr i ddeall y byd gwaith yn well, y sgiliau sydd eu hangen arnynt a'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae cynghorwyr gyrfaoedd Gyrfa Cymru wedi cael eu rhoi mewn cysylltiad â phob chweched dosbarth a sefydliad addysg bellach, gan sicrhau mynediad i bob dysgwr ôl-16 at arweiniad gyrfa diduedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at system archebu ar-lein Gyrfa Cymru i drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfaoedd, naill ai'n bersonol neu ar-lein.

Mae rhaglenni dysgu cyffredinol a galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed, a nodwyd gan Medr, yn cynnwys cyllid ar gyfer 'Ffocws Diwydiant Dysgwyr Cymunedol', gan gefnogi addysg gyrfaoedd i ddysgwyr. Gall darparwyr deilwra'r elfen hon o'u cynnig yn ôl anghenion penodol eu dysgwyr, ac anghenion lleol a/neu benodol cyflogwyr. Mae rhaglenni galwedigaethol llawn-amser, sy'n cynnwys cymwysterau â phrofiad gwaith gorfodol, yn cynnwys elfen o Brofiad sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith o fewn y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys neilltuo amser i ddysgwyr feithrin a mireinio eu sgiliau ymarferol, a ddylai eu helpu i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.  Ar gyfer pob rhaglen alwedigaethol arall, gall dysgwyr ychwanegu at eu rhaglenni llawn-amser drwy oriau profiad gwaith ychwanegol a gyllidir drwy ffrwd ariannu wahanol. Ar wahân i hyn, mae Medr yn cyllido sefydliadau addysg bellach i redeg Biwros Cyflogaeth a Menter sy'n paratoi dysgwyr i ymuno â'r farchnad lafur, gan sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth am yr opsiynau gyrfa sydd ar gael iddynt.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau i Medr yn ymwneud â chwricwla lleol 16 i 18; byddwn yn ymgynghori ar y canllawiau hyn yn fuan eleni. Bydd y canllawiau yn crynhoi sut y dylai darparwyr addysg ôl-16 adeiladu ar addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o fewn Cwricwlwm Cymru, gan helpu dysgwyr i ystyried yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael iddynt ar ddiwedd eu haddysg 16 i 18 oed.

Mae Estyn yn gofyn i ysgolion a sefydliadau addysg bellach roi cyfrif o ansawdd yr addysg y maent yn ei darparu i ddysgwyr o dan dri phrif faes arolygu: addysgu a dysgu; lles, gofal, cefnogaeth ac arweiniad; ac arwain a gwella. Mae canllawiau Estyn, 'Beth rydym yn ei wneud', yn nodi y byddant, mewn arolygiadau o ysgolion, yn ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyngor effeithiol a diduedd i ddisgyblion mewn perthynas â'r camau nesaf yn eu datblygiad. Yn achos sefydliadau addysg bellach, mae arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a'r sgiliau i symud ymlaen yn eu gyrfa, a pha mor dda y mae'r coleg yn darparu arweiniad a chyngor diduedd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaethau allanol, mewn perthynas ag opsiynau gyrfa a'r byd gwaith.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.

## Argymhelliad 14

Dylai Medr weithio gyda Colegau Cymru i ganfod y bylchau yn y data am ddysgwyr mewn colegau AB (megis eu cyrchfannau ôl-18), a chymryd camau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny drwy ddatblygu set ddata fanwl gywir, amserol a dibynadwy gyda'r nod o'i rhyddhau'n flynyddol erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2025/26.

**Ymateb:**

Bydd Medr yn darparu ei ymateb ei hun i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 15

Fel rhan o'i ddull o ddatblygu fframwaith gradd-brentisiaethau i'w weithredu o fis Awst 2027 ymlaen, dylai Medr gynnal asesiad o fanteision neu anfanteision y canlynol mewn perthynas â chynyddu nifer y gradd-brentisiaethau sydd ar gael:

- cyflogwyr yn cyfrannu at gost ffioedd dysgu gradd-brentisiaethau, ochr yn ochr â'r cyflog y maent yn ei dalu i'r prentis; a
- rhoi'r ymreolaeth i sefydliadau AU ddatblygu gradd-brentisiaethau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

**Ymateb:**

Bydd Medr yn darparu ei ymateb ei hun i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 16

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei thrafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sy'n wynebu sefydliadau Addysg Uwch ar lefel y DU gyfan.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gweinidogion wedi cwrdd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ar sawl achlysur ers mis Chwefror i drafod y mater hwn. Cyfarfu swyddogion yn rheolaidd â swyddogion Adran Addysg y DU ac Adran DSIT yn ystod y cyfnod cyn cyhoeddi Papur Gwyn Addysg a Sgiliau Ôl-16 Llywodraeth y DU, sy'n nodi strategaeth Llywodraeth y DU ei hun o fynd i'r afael â'r pwysau ariannol ar ddarparwyr addysg uwch. Rydym yn ystyried goblygiadau'r papur hwnnw ac, yn arbennig, strategaeth arfaethedig Llywodraeth y DU i gyllido ymchwil ac arloesi, o safbwynt sefyllfa ariannol prifysgolion Cymru.

Rydym hefyd wedi gwneud y penderfyniad na fydd ardoll myfyrwyr rhyngwladol yn cael ei gweithredu yng Nghymru, ac rydym yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd myfyrwyr rhyngwladol i'r sector yng Nghymru. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu ffioedd dysgu yn unol â chwyddiant wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddilyn eu hesiampl - amcangyfrifir y bydd hyn yn cynhyrchu £19m mewn refeniw i sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2026/27.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim.